# Cwestiynau am ddyddiadur y Robin Goch



Dydd Llun

Codais yn gynnar bore 'ma i chwilio am le i adeiladu fy nyth. Penderfynais ddechrau yng ngardd Mr Evans gan fod yno ddigon o goed a gwrychoedd clud.

Yn yr ardd, roedd Mr Evans yn palu twll anferth. Eisteddais ar y ffens am ychydig yn ei wylio. Ymhen hir a hwyr gwelais mwydyn tew a blasus yn sgleinio yn yr haul. Hedfanais lawr i ddal fy nghinio ond yn sydyn daeth Greta'r gath o rhywle gan llamu fel mellten tuag ataf. "TWIIIIIIIIT" sgrechiais gan geisio dianc o grafangau Greta. Cyrhaeddais brig y goeden afalau ond fe ddechreuodd Greta ddringo'r goeden. Yr eiliad honno penderfynais nad oedd gardd Mr Evans yn lle da ar gyfer adeiladu nyth.

Erbyn heno, dwi adre'n ddiogel gyda Mam. Dywedodd Mam, "Paid â phoeni, fe ddaw haul ar fryn. Ceisia eto yfory." Dwi wedi blino'n lân, nos da.

***Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir***

**1. Ar ddydd Llun mae'r Robin Goch yn chwilio am nyth ____________**

mewn esgid    mewn twll    yn yr ardd    yn y sied

**2. Mae'r Robin goch yn teimlo cyffro yn ei waed wrth weld ____________**

Mr Evans    ei fam    twll    mwydyn

**3. Mae Great'r gath yn __________**

wyllt    ffyrnig    caredig    swil

**4. Yn yr ardd mae coeden ____________**

dderwen    afalau    ffawydden    banana

<u>Dydd Mawrth</u>

Hedfanais i gyfeiriad y Gogledd heddiw, yn ddigon pell i ffwrdd o ardd Mr Evans a Greta'r gath.

Wrth hedfan uwch ben y pentref, gwelais y parc a phenderfynais chwilio yno am le i adeiladu fy nyth. Roedd drewdod ofnadwy yn dod o gyfeiriad y bin ailgylchu. "Pwwwwww!" meddais. "Wel am ddrewdod!" Yna, gwelais botyn mawr o flodau a oedd yn arogli'n hyfryd. Ond, clywais sŵn gwenynen yn agosáu. "Dim diolch," meddyliais. "Dydw i ddim eisiau cael fy mhigo!" Yna, gwelais gae pêl droed ac yno, roedd hen esgid yn y clawdd. Roedd yr esgid yn grêt ar gyfer adeiladu nyth gan ei fod yn glud ac yn ddiogel. Dechreuais gasglu mwsogl ond yna, gwelais bachgen yn cicio pêl droed a chwalu fy nyth.

Erbyn heno, dwi adre'n glud gyda Mam. Dywedodd Mam, "Paid â phoeni, fe ddaw haul ar fryn. Ceisia eto yfory." Dwi wedi blino'n lân, nos da.

***Ticiwch un***

**1. I ba gyfeiriad aeth y Robin Goch?**

- i'r Gogledd ☐
- i'r De ☐
- i'r Gorllewin ☐
- i'r Dwyrain ☐

**2. Pa fath o fin oedd yn y parac?**

- bin ffrwyth ☐
- bin ailgylchu ☐
- bin papur ☐
- bin gwydr ☐

**3. Beth oedd yn atseinio yng nghlust y Robin Goch?**

- lori sbwriel ☐
- aderyn ☐
- plant ☐
- gwenynen ☐

Dydd Mercher

Ar ôl bwyta llond bol o fwyar duon roeddwn yn barod am ddiwrnod  arall. Teithiais i'r Dwyrain tuag at ganol y pentref lle'r oedd y siop leol, y swyddfa bost a'r eglwys. Wrth nesáu at y swyddfa bost gwelais Prys y postmon. Sylweddolais ei fod yn brysur yn casglu llythyron a pharseli i osod yn ei sach. Penderfynais i eistedd a gwylio Prys y postmon yna, cefais syniad gwych! Byddai'r blwch postio'n grêt ar gyfer adeiladu nyth gan ei fod yn ddigon o faint a'r peth gorau oll - yr un lliw a fy mrest. Wrth sbïo i mewn trwy'r blwch clywais olion traed yn agosáu a cheisiais neidio i mewn i'r blwch postio er mwyn cuddio. Ond, dyna siom cefais, roedd y blwch yn llawn dop o gardiau pen-blwydd. Doedd y blwch postio ddim yn lle da i adeiladu nyth.

Erbyn heno, dwi adre'n siomedig gyda Mam. Dywedodd Mam, "Paid â phoeni, fe ddaw haul ar fryn. Ceisia eto yfory." Dwi wedi blino'n lân, nos da.

**1. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dweud beth sydd yn y blwch postio**

______________________________________________

**2. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dangos beth fwytodd y  Robin Goch**

______________________________________________

**3. Dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n dangos beth sydd yn y  pentref**

______________________________________________

<u>Dydd Iau</u>

Teimlais yr haul ar fy adenydd bore ‘ma wrth ddeffro, ond nid oeddwn yn teimlo mor awyddus heddiw. Roedd yn waith anodd chwilio am gartref. Hedfanais i’r Gorllewin tuag at fferm Mr Jones.

Yn y cae gwenith gwelais dyn yn sefyll yn llonydd. “Beth sy’n bod ar Mr Jones?” meddyliais. Chwarddais, “Tw-hi-hi-hiiiit!” wrth lanio ar ei het gan nid Mr Jones oedd hwn o gwbl, ond rhyw hen fwgan brain mewn hen ddillad. Roedd pocedi dwfn ar ei got, penderfynais mai dyma’r lle gor-au a thawel i adeiladu fy nyth. Dechreuais gasglu mwsogl ond wrth hedfan yn ôl at y bwgan brain, daeth adercas ataf. “Cer o ma’r hen Robin Goch, fi sy’n byw yma!” gwaeddodd Rŵbi y Robin Goch arnaf. Doeddwn i ddim eisiau ymladd ac roedd ofn arnaf felly i ffwrdd a fi yn ôl at Mam.

*Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro.*

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Dydy’r Robin ddim yn teimlo’n awyddus heddiw | | |
| Pocedi dwfn sydd ar got y bwgan brain | | |
| Mae Titw Tomos Las yn ymosod ar y Robin Goch | | |
| Mae Robin yn glanio ar het y bwgan brain | | |

Dydd Gwener

1. Dihunais yn teimlo'n ddiflas iawn gan nad oeddwn wedi dod o hyd i unrhyw le i adeiladu fy nyth. Yna,clywais ganu swynol.

2. Wrth ddilyn y canu, gwelais yr hen wraig drws nesaf yn taflu briwsion yn yr ardd. "Helo, Robin Goch" meddai . "Dere draw am ychydig o fwyd."

3. "Edrycha, mae gen i rywle arbennig i ti adeiladu nyth." dangosodd hen debot a oedd yn gorwedd yn yr ardd. Cododd fy nghalon yn syth pan welais y tebot diogel a oedd yn berffaith ar gyfer fy nyth.

4. Casglais crinddail, mwsogl ac ychydig o blu a'u gosod o fewn y tebot.

***Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1 i 4.***

Mae'r Robin yn gweld yr hen debot am y tro cyntaf ☐

Mae'r Robin yn clywed sŵn canu ☐

Mae'n casglu pethau o'r ardd ar gyfer ei nyth ☐

Mae'n cwrdd â'r menyw caredig ☐

*Tynnwch **5 llinell** i ddangos ble fuodd y Robin Goch bob dydd*

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | gardd Mr Evans |
| Dydd Llun | canol y pentref |
| Dydd Iau | fferm Mr Jones |
| Dydd Mercher | yn y parc |
| Dydd Gwener | tebot yn yr ardd |

*Dewisiwch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi cylch/cylchoedd o amgylch eich dewis*

**a) Penderfynodd y Robin Goch i adeiladu ei nyth mewn**

blwch postio clawdd tebot coeden poced cot

**b) Roedd y Robin Goch wedi adeiladu'r nyth gan ddefnyddio**

gwlân mwsogl gwair crinddail brigau